WE ARE MACMILLAN. CANCER SUPPORT

'SYLWAIS AR WAED YN FY WRIN FELLY DYMA FYND I WELD Y MEDDYG.'

David

Symptomau o ganser yr arennau a'r bledren

Mae dros 20,000 o bobl yn cael diagnosis o ganser yr arennau neu'r bledren yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn. Mae'r canserau hyn yn fwy cyffredin ymysg dynion a phobl dros 50 oed.

Gallai gwybod pa newidiadau i gadw golwg arnynt a phryd i fynd i weld meddyg wneud gwahaniaeth mawr. Peidiwch â mynd i boeni os yw'r symptomau hyn gennych - ewch i weld rhywun.

Ewch i weld eich meddyg os ydych yn profi unrhyw rai o'r symptomau hyn:

- Gwaed yn eich pi-pi, hyd yn oed os mai dim ond unwaith.
- Angen pasio dŵr yn sydyn neu ar frys.
- Poen neu deimlad llosgi wrth basio dŵr.
- Lwmp yn eich bol.

Serch hynny, gall y symptomau hyn gael eu hachosi gan bethau eraill heblaw canser, fel haint, cerrig yn y bledren, neu gerrig yn yr arennau. Ond peidiwch â cheisio diagnosio'ch hun – ewch i weld eich meddyg. Gallai arbed eich bywyd. Os oes gennych ganser, gorau po gyntaf y caiff ei ganfod fel y gellir ei drin yn llwyddiannus.

Dydych chi ddim yn gwastraffu amser eich meddyg os ydych chi'n gofyn iddo archwilio'ch symptomau.

Y cynharaf y canfyddir y canser, y mwyaf tebygol y bydd y driniaeth yn llwyddiannus.

Os oes angen cefnogaeth arnoch neu efallai sgwrs â rhywun, ffoniwch Macmillan am ddim ar **0808 808 00 00** neu ewch i **macmillan.org.uk**

© Cymorth Canser Macmillan, Gorffennaf 2014. Argraffiad 1af. MAC13693_URINE_WELSH. Bwriedir ei adolygu nesaf yn 2017. Cymorth Canser Macmillan, elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (261017), Yr Alban (SC039907) ac Ynys Manaw (604). Argraffwyd yn defnyddio deunydd cynaliadwy. Ailgylchwch os gwelwch yn dda.

Health & care information you can trust
The Information Standard Certified Member